2023

# Cysylltiadau Cymunedol yn Lleoedd Llesol Abertawe




Ella Rabaiotti

Prifysgol Abertawe

2023

Teitl: Cysylltiadau Cymunedol yn Lleoedd Llesol Abertawe: astudiaeth ymchwil ansoddol i gynllun Lleoedd Llesol Abertawe

Awdur: Ella Rabaiotti, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe

Diolchiadau: Hoffai'r awdur ddiolch yn fawr i bawb sy'n rhan o Leoedd Llesol Abertawe ac sydd wedi cefnogi'r prosiect hwn, yn arbennig Anthony Richards ac Yvonne Bennett, Tîm Mynd i'r Afael â Thlodi, Cyngor Abertawe.

Dyddiad: 15 Awst 2023

Fersiwn 2 DRAFFT TERFYNOL

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol t2

Cyflwyniad (Trosolwg, Cefndir) t3

- Rhesymeg y Gwaith Ymchwil t4
- Nodau ac Amcanion y Gwaith Ymchwil t5

Methodoleg (Cynllun y Gwaith Ymchwil, Dulliau'r Gwaith Ymchwil a Sampl) t5

- Cyfyngiadau t7

Canfyddiadau (Cyflwyniad, Thema 1) t7

- Thema 2 t9
- Thema 3 t12
- Thema 4 t13

Trafodaeth a Chasgliadau (Cyflwyniad) t15

- Pwyntiau Trafod t16
- Sylwadau i Gloi t19
- Argymhellion t19

Cyfeiriadau t20

Atodiad t23


**Rhestr o Ffigurau a Thablau**


*Ffigur 1: Sgrinlun o fap o Leoedd Llesol Abertawe* *t5*

*Tabl 1: Trosolwg o sampl o'r grwpiau ffocws a chyfranogwyr cyfweliadau* *t6*

*Tabl 2: Trosolwg o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwil* *t8*

*Tabl 3: Effaith cynllun Lleoedd Llesol Abertawe ar y sefydliadau a gymerodd ran* *t23*

*Tabl 4: Canfyddiad o effaith Lleoedd Llesol Abertawe ar y cyfranogwyr* *t23*

*Tabl 5: Safbwyntiau ar ddysgu ehangach gan Leoedd Llesol Abertawe* *t24*

## Crynodeb Gweithredol

Archwiliodd yr astudiaeth ymchwil hon ddatblygiad 'canolfannau clyd' drwy gynllun 'Lleoedd Llesol Abertawe' yn ystod gaeaf 2022/23, pan agorodd sefydliadau cymunedol a lleoedd cyhoeddus eu drysau i gynnig lle cynnes i bobl eistedd, gael diod boeth a derbyn cymorth yn lleol. Gan dynnu ar ddata ansoddol (grwpiau ffocws a chyfweliadau (38 o gyfranogwyr) a sylwadau mewn holiaduron (63 o gyfranogwyr), ystyriodd yr ymchwil fuddion ehangach posib y cynllun o ran datblygu cysylltiadau cymdeithasol a chryfhau cymunedau.

Cafodd Lleoedd Llesol Abertawe eu hyrwyddo fel lleoedd 'diogel, cynnes a chroesawgar'. Canfu'r ymchwil dair thema fras a oedd yn cyd-fynd â diben y lleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys buddion lle cynnes yn ystod cyfnod o heriau costau byw; teimladau o ddiogelwch, yn enwedig yng nghyd-destun cynwysoldeb; ac amgylchedd croesawgar sy'n hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol. Daeth pedwaredd thema i'r amlwg, sef Lleoedd Llesol Abertawe fel lleoedd dysgu â diben cymdeithasol ehangach i gysylltu cymunedau drwy rannu gwybodaeth a gweithgareddau.

*Lleoedd croesawgar*

Er y sefydlwyd y lleoedd fel 'canolfannau clyd' yn bennaf, un o'r **canfyddiadau mwyaf arwyddocaol oedd effaith Lleoedd Llesol Abertawe ar feithrin cysylltiadau cymdeithasol a lleihau unigedd**. Mynegwyd hyn drwy gydol y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, a chafodd ei adlewyrchu gan dros **90% o'r sylwadau yn yr holiaduron am ganfyddiad pobl o'r gwahaniaeth roedd y cynllun wedi'i wneud i unigolion.** Yn ogystal, **awgrymodd 27% o'r sylwadau yn yr holiaduron fod lles unigolion wedi gwella** drwy fynd i'r lleoedd.

Mae canfyddiadau allweddol eraill o'r data'n cynnwys:

- *Lleoedd cynnes* - **Cyfeiriodd yr holl grwpiau ffocws, ac oddeutu dau draean o'r sylwadau yn yr holiaduron at fuddion lleoedd cynnes,** yn enwedig yng nghyd-destun heriau ariannol. Roedd y cynlluniau'n gallu cynnig gwasanaethau estynedig neu uwch i'r rhai hynny roedd eu hangen arnynt (30% o sylwadau yn yr holiaduron).
- *Lleoedd diogel* - Roedd pobl yn meddwl am Leoedd Llesol Abertawe fel lleoedd diogel a chynhwysol. Cawsant eu disgrifio gan y cyfranogwyr fel lleoedd cyfeillgar a hygyrch roeddent yn gallu ymddiried ynddynt a lle nad oedd neb yn eu beirniadu. Cyfeiriodd **tua 40% o'r sylwadau gan gydlynwyr at safbwyntiau o ddiogelwch, yn enwedig yng nghyd-destun cynwysoldeb.**
- *Lleoedd dysgu* - Roedd yr holl leoedd a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn cynnig cyfleoedd am weithgareddau a rhannu gwybodaeth leol. Roedd y lleoedd yn ymwybodol o anghenion cynhwysiant digidol. **Roedd dros 40% o'r sylwadau gan gydlynwyr yn awgrymu buddion drwy ddysgu a rhannu gwybodaeth. Dywedodd 43 o 63 (68%) o Leoedd Llesol Abertawe eu bod wedi cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth fel rhan o'r cynllun.** Soniodd 13% am fuddion o ran datblygu sgiliau a gwirfoddoli.

Cynhaliwyd digwyddiad cymunedol i drafod y canfyddiadau. Er i bobl deimlo fod y cynllun yn hynod gadarnhaol ar y cyfan (ac mae llawer ar agor o hyd er bod y cyllid wedi dod i ben)

teimlwyd bod angen mwy o ymchwil i ddeall mwy am pam nad yw pobl yn mynd i Leoedd Llesol Abertawe - er y gall fod eu hangen arnynt - a bod angen strategaethau i ymateb i hyn, ac archwilio sut gallai Lleoedd Llesol Abertawe ddatblygu ymagwedd ar sail lleoliad a darparu lefel uwch o gymorth a chyngor priodol.

# Cyflwyniad

## Trosolwg

Mae'r astudiaeth ymchwil hon yn ystyried menter gymunedol a gyflwynwyd i ymateb i'r argyfwng costau byw a thlodi ynni yng Nghymru ar ôl Covid, yn ystod y Gaeaf 2022/23. Mae'n archwilio datblygiad 'canolfannau clyd' trwy gyfrwng cynllun 'Lleoedd Llesol Abertawe', lle agorodd sefydliadau cymunedol a mannau cyhoeddus eu drysau er mwyn cynnig lle cynnes i bobl eistedd a chael diod boeth a chymorth lleol. Mae'n ystyried manteision ehangach posibl y cynllun wrth ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol a chryfhau cymunedau.

## Cefndir

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith barhaus ar gymunedau – yn economaidd, ar ryngweithio cymdeithasol ac arwahanrwydd, lles emosiynol, yn ogystal â chyfyngu ar y mynediad at wasanaethau (Green et al, 2022; Dahlgren a Whitehead, 2021). Mae hyn wedi effeithio yn arbennig ar grwpiau poblogaeth penodol yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau difreintiedig, pobl hŷn a'r rhai ar incymau isel (Green et al, 2022). At hynny, awgrymwyd y gallai Covid fod wedi achosi mwy o niwed i gymunedau yn y DU oherwydd polisïau cyni (Williams a McKee, 2023). Yn ystod yr hydref 2022,, amlygodd y Prif Weinidog y sefyllfa economaidd ofidus yn y Senedd; argyfwng costau byw, gan gynnwys chwyddiant sy'n codi, a chostau bwyd ac ynni uwch. Mewn gwaith dadansoddi a gynhaliwyd gan Sefydliad Resolution, amlygwyd y ffaith bod disgwyl i'r rhai sy'n ennill incymau isel fod deirgwaith yn fwy ar eu colled na'r rhai sydd ar incymau uchel (Handscomb a Marshall, 2022). Nododd y Prif Weinidog y defnydd cynyddol o 'ganolfannau cynnes' (a elwir yn 'ganolfannau neu fannau clyd' hefyd) er mwyn ymateb i dlodi ynni:

> 'Mannau lle y gall pobl ddod i gadw'n gynnes yn ystod y gaeaf eleni...mae'n anodd iawn credu ein bod wedi cyrraedd y pwynt lle y mae cynghorau cymuned, grwpiau ffydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymunedol yn gorfod cynllunio ar gyfer atal pobl rhag wynebu tlodi tanwydd eithafol yn ystod y gaeaf eleni.'[1]

Gan ymrwymo £1m ar gyfer y fenter hon, yn ystod datganiad dilynol gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, disgrifiwyd canolfannau clyd fel 'mannau mewn cymunedau lleol lle y gall pobl ganfod amgylchedd diogel, hygyrch a chynnes yn ystod y dydd er mwyn helpu i leihau'r gost o wresogi eu cartrefi' (Llywodraeth Cymru, 2022). Fel rhan o'r gofyniad cyllido, dywedodd y Gweinidog y dylai'r canolfannau fod yn 'agored ac yn gynhwysol' ac y dylent ystyried 'anghenion lleol a diwylliannol', a chynnig 'lluniaeth' o leiaf. Gweinyddwyd cynlluniau trwy CLlLC i awdurdodau lleol yng Nghymru a dyfarnwyd £80,000 i Gyngor Abertawe, i'w rannu ymhlith mudiadau cymunedol. Lansiwyd menter 'Lleoedd Llesol

[1] https://record.senedd.wales/Plenary/12974#C444732

Abertawe' ym mis Tachwedd 2022 fel 'lle diogel, cynnes a chroesawgar' a allai gynnwys gweithgareddau, a lluniaeth neu rywle i eistedd[2].


Cytunwyd ar weithgarwch brandio ehangach sef 'Lleoedd Llesol Abertawe' yn hytrach na 'chanolfannau clyd' er mwyn lleihau unrhyw stigma o ymgysylltu â'r cynllun[3]. Er enghraifft, roedd profiadau ymwelwyr â banciau bwyd yn cynnwys teimladau o stigma a chywilydd, er gwaethaf y ffaith bod tlodi bwyd yn effeithio ar ystod eang o bobl (Purdam et al, 2016). Mae Lleoedd Llesol Abertawe yn lleoliadau cymunedol sy'n cynnwys elusennau, eglwysi a chanolfannau cymunedol, yn ogystal â llyfrgelloedd. Dyfarnwyd cyllid i oddeutu 70 o sefydliadau ac erbyn mis Mawrth 2023, roedd dros 80 o leoedd wedi cael eu rhestru mewn cyfeiriadur penodedig ac ar fap rhyngweithiol (gweler Ffigur 1) ar wefan y cyngor.[4] Ym mis Rhagfyr 2022, adroddodd Llywodraeth Cymru am dros 300 o leoedd cynnes ar draws Cymru[5], ac roedd gogledd Cymru, er enghraifft, yn rhestru dros 120 yn eu cynllun 'Croeso Cynnes-Warm Welcome'. Erbyn diwedd y cynllun, roedd y cyllid wedi cefnogi dros 700 o ganolfannau ar draws Cymru (Thomas, 2023).

## Rhesymeg y Gwaith Ymchwil

Yn gynnar yn 2023, roedd Tîm Mynd i'r Afael â Thlodi Cyngor Abertawe yn cael adborth cadarnhaol am effaith y lleoedd. Awgrymwyd y gallai'r cynllun fod yn cynorthwyo canlyniadau ehangach, megis darparu gwasanaeth i breswylwyr a allent deimlo'n ynysig neu'n unig. Yn wir, mae Cyngor Abertawe wedi datblygu strategaethau ynghylch atal a thlodi sy'n cynnwys datblygu cyfalaf cymdeithasol trwy gyfrwng cysylltiadau cymdeithasol (Cyngor Abertawe, 2018). Er bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ym mis Mawrth 2023, roedd y rhan fwyaf o'r lleoedd wedi parhau i gynnig cymorth ar ôl y tywydd oerach ac mae'r cyfeiriadur yn parhau. Soniodd Arweinydd Cyngor Abertawe bod y 'canolfannau wedi troi'n fannau cymunedol lle y mae pobl yn cyfarfod yn rheolaidd' a'u bod 'wir wedi esblygu' (Thomas, 2023). Felly, bu cyfle i gynnal gwaith ymchwil er mwyn deall cyfraniad ehangach Lleoedd Llesol Abertawe.

[2] https://www.swansea.gov.uk/SwanseaSpacesPR?lang=en
[3] Yn ystod cyfarfod cwmpasu ymchwil cychwynnol gyda Chyngor Abertawe, bu cynrychiolwyr yn esbonio'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ganddynt er mwyn gweithredu'r cynllun
[4] https://www.swansea.gov.uk/swanseaspaces
https://www.gov.wales/written-statement-warm-hubs
[5] https://www.gov.wales/written-statement-warm-hubs

*Ffigur 1: Ciplun o fap o Leoedd Llesol Abertawe, gwefan Cyngor Abertawe – ar 05/04/23*




## Nodau ac amcanion y gwaith ymchwil

Nod y gwaith ymchwil hwn oedd deall sut y gallai datblygiad Lleoedd Llesol Abertawe helpu i feithrin cysylltiadau cymunedol, gan ystyried y manteision ehangach posibl y tu hwnt i'w gylch gwaith gwreiddiol (megis lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chynyddu cydnerthedd cymunedol). Er mwyn cyflawni nodau'r gwaith ymchwil, bu'r prosiect yn canolbwyntio ar y cwestiwn cyffredinol canlynol – Sut gall Lleoedd Llesol Abertawe helpu i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol? - a'r is-gwestiynau hyn:

- Beth yw manteision a chyfyngiadau Lleoedd Llesol Abertawe, sy'n dod i'r amlwg?
- Beth yw rôl Lleoedd Llesol Abertawe wrth gynnig cyngor, cymorth a gwasanaeth cyfeirio at wasanaethau eraill?
- Sut mae Lleoedd Llesol Abertawe yn cyflawni rôl yn yr agenda tlodi ac atal ehangach?

# Methodoleg

## Cynllun y gwaith ymchwil

Cynhaliwyd astudiaeth ansoddol fach rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2023 fel rhan o weithgarwch ymchwil a ariannir gan genhadaeth ddinesig Prifysgol Abertawe[6]. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r astudiaeth ac fe'i cynhaliwyd yn unol â pholisi Uniondeb Ymchwil Prifysgol Abertawe, gan gynnwys gofynion diogelu data. Roedd y gwaith ymchwil yn canolbwyntio'n wreiddiol ar gynnal grwpiau ffocws er mwyn cael dealltwriaeth eang o'r cynllun. Mae cynnal gwaith ymchwil ansoddol yn gofyn am hyblygrwydd, a'r lle gorau i'w gynnal yw mewn lleoliad naturiol (Wincup, 2017). Felly, cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r trafodaethau yn lleoliad Lleoedd Llesol Abertawe ac wrth i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo,

[6] Cafwyd ychydig gyllid gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, Cyngor Addysg Uwch Cymru

bu'n briodol cynnal rhai cyfweliadau er mwyn cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu a chyfranogi. Cefnogwyd canfyddiadau cyfweliadau a grwpiau ffocws ymhellach gan ddata am yr adborth a gasglwyd gan Gyngor Abertawe at ddibenion monitro. Gyda'i gilydd, roedd y canfyddiadau ansoddol hyn yn destun gwaith dadansoddi thematig gan ddefnyddio dull gweithredu chwe cham o godio i ddiffinio themâu (Braun a Clarke, 2006). Wedi hyn, trawsnewidiwyd themâu allweddol a sylwadau gan y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil yn waith animeiddio a rannwyd yn ystod digwyddiad ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r drafodaeth a'r adborth o'r digwyddiad wedi helpu i lywio'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## Dulliau ymchwil a sampl

### *Grwpiau ffocws a chyfweliadau*

Trefnwyd grwpiau ffocws trwy gyfrwng arweinwyr Lleoedd Llesol Abertawe, a wahoddwyd i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil ac i hwyluso grŵp ffocws gydag aelodau a oedd yn cydsynio. Cynigiwyd talebau diolch i gyfranogwyr fel cymhelliad rhesymol. Bwriadwyd cynnal pum grŵp ffocws yn wreiddiol, mewn amrywiaeth o leoliadau / demograffeg, a fyddai'n cynnwys 6-8 o gyfranogwyr. Tyfodd hyn i gynnwys saith cyfweliad, gan gyrraedd pump o Leoedd Llesol Abertawe, yn ogystal â llyfrgelloedd a fu'n rhan o'r cynllun. Siaradwyd â 38 o bobl, gan gynnwys cydlynwyr, gwirfoddolwyr a mynychwyr (gweler Tabl 1). Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol pellach gydag arweinwyr lleoedd a chynghorwyr lleol. Estynnwyd gwahoddiad i gyfranogwyr drafod eu profiadau a'u safbwyntiau ynghylch menter Lleoedd Llesol Abertawe. Recordiwyd a thrawsgrifiwyd y rhan fwyaf o'r sgyrsiau, er mai nodiadau yn unig a gymerwyd yn ystod rhai grwpiau ffocws. Roedd darllen ac ailddarllen y trawsgrifiadau a'r nodiadau wedi amlygu pedair prif thema allweddol gyson a phedair is-thema (gweler y *Canfyddiadau*).

*Tabl 1: Trosolwg o sampl o gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau*

| Dynodiad | Label | Ardal yn Abertawe | Niferoedd cyfranogwyr | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp ffocws 1 | GFf1 | Gorllewin | 5 | Pobl hŷn/wedi ymddeol yn bennaf Menywod a Dynion. Cyfranogwyr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Grŵp Ffocws 2 | GFf2 | Gorllewin | 6 | Pobl hŷn/wedi ymddeol yn bennaf Menywod a Dynion. Cyfranogwyr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Grŵp ffocws 3 | GFf3 | Dwyrain | 7 | Pobl hŷn/wedi ymddeol yn bennaf Menywod a Dynion. Cyfranogwyr Lleoedd Llesol Abertawe a gwirfoddolwyr |
| Grŵp ffocws 4 | FfG4 | Pob ardal yn Abertawe | 3 | Oedolion oedran gweithio / Menywod Cydlynwyr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Grŵp ffocws 5 | GFf5 | Gŵyr | 7 | Pobl hŷn/wedi ymddeol yn bennaf Menywod. Cyfranogwyr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Cyfweliad 1 | Cyf1 | Canol | 1 | Oedolyn oedran gweithio / Dyn Cydlynydd Lleoedd Llesol Abertawe |
| Cyfweliad 2 | Cyf2 | Canol | 1 | Oedolyn oedran gweithio / Dyn Cyfranogwr Lleoedd Llesol Abertawe |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfweliad 3 | Cyf3 | Canol | 1 | Oedolyn oedran gweithio / Dyn Cyfranogwr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Cyfweliad 4 | Cyf4 | Gorllewin | 2 | Dyn a Menyw wedi ymddeol. Gwirfoddolwyr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Cyfweliad 5 | Cyf5 | Dwyrain | 1 | Menyw wedi ymddeol. Cyfranogwr Lleoedd Llesol Abertawe a gwirfoddolwr |
| Cyfweliad 6 | Cyf6 | Gŵyr | 2 | Dyn a Menyw oedran gweithio Cyfranogwyr Lleoedd Llesol Abertawe |
| Cyfweliad 7 | Cyf7 | Gŵyr | 2 | Menywod wedi ymddeol. Gwirfoddolwyr Lleoedd Llesol Abertawe |

*Data monitro (holiadur)*

Defnyddiwyd data ychwanegol i driongli a chryfhau'r canfyddiadau o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau trwy ddadansoddi adborth o ddata monitro a ddefnyddiwyd gan Gyngor Abertawe. Roedd hwn yn cynnwys sylwadau byr/ymatebion dienw gan 63 o Gydlynwyr Lleoedd Llesol Abertawe i gwestiynau allweddol, a oedd yn cynnwys:

- Beth oedd y gwahaniaeth a wnaethpwyd [gan y fenter] i fudiad?
- Beth oedd y gwahaniaeth a wnaethpwyd i unigolion?
- Unrhyw ganlyniadau annisgwyl/gwersi a ddysgwyd?
- Unrhyw waith mewn partneriaeth?

Codiwyd y data hwn yn y lle cyntaf trwy MS Excel gan ddefnyddio'r themâu/is-themâu o drawsgrifiadau y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws ac fe'i dadansoddwyd ymhellach ar gyfer unrhyw themâu/is-themâu ychwanegol.

### Cyfyngiadau

Nid oedd y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau yn cynnwys gogledd Abertawe ac o ystyried maint y sampl, nid yw'n gynrychioliadol o holl Leoedd Llesol Abertawe. Roedd y sampl yn cynnwys amrediad o oedrannau a rhywiau, ynghyd â phobl sydd ag anableddau, fodd bynnag, nid oedd y sampl yn cynnwys amrywiaeth ethnig. Fodd bynnag, roedd data yr holiadur wedi cynnwys y rhan fwyaf o Leoedd Llesol Abertawe a demograffeg ehangach. At hynny, roedd y trafodaethau yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau wedi myfyrio am fanteision ehangach y lleoedd y tu hwnt i'r cyfnod cyllido, ac roedd yr holiadur yn canolbwyntio yn fwy ar effaith y grant.

## Canfyddiadau

### Cyflwyniad

Hyrwyddwyd Lleoedd Llesol Abertawe fel mannau 'diogel, cynnes a chroesawgar'. Roedd y gwaith ymchwil wedi canfod tair thema fras a oedd yn cyd-fynd â diben y lleoedd. Mae hyn yn cynnwys budd lle cynnes yn ystod cyfnod o wynebu heriau costau byw; persbectifau diogelwch, yn enwedig yng nghyd-destun cynwysoldeb; ac amgylchedd croesawgar sy'n hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol. Canfuwyd pedwaredd thema sef Lleoedd Llesol Abertawe fel mannau dysgu sydd â swyddogaeth gymdeithasol ehangach ar gyfer cysylltu

cymunedau trwy rannu gwybodaeth a gweithgareddau. Dangosir y themâu a'r is-themâu yn y tabl isod:

*Tabl 2: Trosolwg o themâu a ganfuwyd yn y gwaith ymchwil*

| Rhif y Thema | Prif Thema | Is-themâu |
|---|---|---|
| 1 | Lleoedd cynnes | Argyfwng ariannol/costau byw; Tlodi; Covid; Lletygarwch |
| 2 | Lleoedd diogel | Cynwysoldeb; Hygyrchedd; Gwasanaethau estynedig; Ymddiriedir ynddynt |
| 3 | Lleoedd croesawgar | Cynhwysiant cymdeithasol; Cysylltiadau cymdeithasol; Lles; Gweithio mewn partneriaeth |
| 4 | Lleoedd dysgu | Gweithgareddau; Rhannu gwybodaeth; Cynhwysiant digidol; Datblygu sgiliau; Gwirfoddoli |

### Thema 1 - "Gwahaniaeth rhwng byw a bodoli": Budd lle cynnes yn ystod argyfwng costau byw

**Cyfeiriodd tua dau o bob tri sylw a gafwyd i'r holiadur at fanteision 'lleoedd cynnes' – gan gynnwys o fewn cyd-destun heriau ariannol** (gweler Tablau 3 a 4 yn yr atodiad). Yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, bu cyfranogwyr yn disgrifio gwerth lleoedd cynnes wrth ymateb i'r argyfwng Costau Byw, ond hefyd mewn byd ar ôl covid. Dywedodd un 'nad yw pobl yn fodlon dod allan ers covid' ac awgrymodd un arall fod 'covid wedi newid pethau' trwy 'golli cysylltiadau', a gweithgareddau rheolaidd (soniodd un bod y caffi yr arferai fynd iddo wedi cau a nododd un arall bod ei ddosbarth campfa wedi stopio). Cyfeiriwyd at effaith adfer yn dilyn **'Covid' yn 11% o'r sylwadau yn yr holiaduron am y ffordd y mae'r cynllun wedi cynorthwyo'r sefydliad** (Tabl 3). Awgrymodd y cyfranogwyr fod bywyd wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, er nad oedd hi bob amser yn glir beth oedd y rheswm dros y newid. Nododd un cyfranogwr – 'y pandemig...tlodi ynni a gwresogi, y rhyfel yn Wcráin, Brexit, mae nifer o'r pethau hyn wedi cael effaith'. Dywedodd un arall:

> 'Mae'r bwlch rhwng y rhai sydd ag arian a'r rhai heb arian yn tyfu...Y rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau trydan. Mae rhenti wedi mynd trwy'r to.' (Cyfranogwr FG3)

O ganlyniad, awgrymwyd bod croeso i Leoedd Llesol Abertawe, a ddisgrifiwyd weithiau gan gyfranogwyr fel 'canolfannau clyd':

> 'Dyna'r hyn yr oedd pobl yn ei fwynhau am y ganolfan glyd – nid oedd yn rhaid i chi droi eich gwres ymlaen drwy'r dydd, a'r cwmni amser cinio. Fel arall, byddwch yn eistedd gartref ar eich pen eich hun.' (Cyfranogwr FG3)
>
> 'Rydym yn fan casglu ar gyfer dau fanc bwyd... ac estynnom wahoddiad i bobl aros i gael coffi ac yna, roedd y ganolfan glyd wedi ein galluogi i wahodd pobl ychwanegol i aros i gael cinio hefyd.' (Cyfranogwr FG3)

Roedd yr holl leoliadau yr ymwelwyd â nhw yn cynnig lluniaeth, a werthfawrogwyd gan gyfranogwyr y grŵp ffocws. Soniodd rhai am gost mynd allan i gael diod boeth, gan nodi bod 'lleoedd i gael coffi yn ddrud', a dywedodd un arall:

> 'Daeth menyw i mewn a dywedodd na allai hi fforddio talu am goffi yn y siopau coffi gan eu bod yn codi dros 3 punt.' (Cyfranogwr FG4)

Awgrymodd cyfranogwr a fu'n ymwneud â chydlynu grŵp mai te a choffi oedd yr hyn yr oedd 'pobl yn ei werthfawrogi fwyaf'. Ac roedd un arall yn cydnabod budd y lletygarwch hwn, gan ddweud – 'mae gwahaniaeth rhwng byw a bodoli' a dywedodd un arall, o ganlyniad, 'bob tro...byddant yn cerdded allan gydag ychydig heulwen'. Bu cyfranogwyr eraill yn esbonio pwysigrwydd y lletygarwch yn y 'canolfannau clyd':

> 'Gan fy mod yn hawlio budd-daliadau nawr, ni fyddaf bron byth yn gadael fy nhŷ nac yn gwneud unrhyw beth, felly mae'n braf dod allan a dod i rywle.' (Cyfranogwr Int2)

> '[Oherwydd] costau byw, roeddem yn ei chael hi'n anodd, ac roedd hi'n braf dod i gael cawl a rhôl fara.' (Cyfranogwr Int6)

> 'Gallwch gael te a thost yma. Mae hynny yn peri i chi deimlo'n gysurus yn syth.' (Cyfranogwr Int3)

> 'Roedd y ffaith bod y pethau hyn ar gael h.y. y diodydd poeth a'r cynhyrchion mislif...wedi bod o help aruthrol.' (Cyfranogwr FG4)

Roedd y rhai sy'n rhedeg y lleoedd wedi cael budd o'r cyllid hefyd. Dywedodd un 'mae bwyd wedi mynd mor ddrud – mae ein biliau trydan a nwy – wedi cynyddu bedair gwaith' a dywedodd un arall 'roeddem yn codi £1...dyna'r unig ffordd yr oeddem yn gallu talu ein biliau'. Dywedodd eraill 'gyda'r cyllid ychwanegol, roedd wedi agor [y lle] hwn i fyny yn aruthrol' ac 'ni fyddai cyllid [ar gyfer y cynllun hwn] yn cael ei weld fel rhywbeth angenrheidiol mewn rhai ystyron...mae ganddo le pwysig iawn mewn cymdeithas.' **Soniwyd am sialensiau ariannol i unigolion a sefydliadau yn 20% o'r sylwadau a wnaethpwyd yn yr holiaduron am y gwersi a ddysgwyd o'r cynllun** (gweler Tabl 5 yn yr atodiad).

Roedd y lleoedd wedi cynorthwyo gyda sialensiau tlodi ynni a digidol ehangach hefyd. Dywedodd un cyfranogwr: 'Lleoedd Llesol Abertawe...mae hyn oll yn ymwneud â chynorthwyo pobl gyda materion ariannol – rydym wedi cael cyngor ar ynni...yr undeb credyd yn cynnal sesiynau galw heibio' ac un arall – 'rydym yn darparu cyflenwad i wefru eich ffôn symudol hefyd ac roeddem wedi gosod rhai lidiau a socedi ychwanegol.' Ac roedd dau o'r cynlluniau yn gweithio i roi sylw i dlodi data

> 'Rydym yn dosbarthu cardiau sim am ddim i bobl fel rhan o'r banc data am ddim i'r rhai na allant fanteisio ar y rhyngrwyd...mewn partneriaeth â sefydliad good things.' (Cyfranogwr Int1)

> 'Gall pobl ddod i ddefnyddio ein band eang am ddim a'n cyfrifiaduron am ddim.' (Cyfranogwr FG4)

## Thema 2 - 'Mae pawb yn garedig': Lleoedd Llesol Abertawe fel mannau diogel a chynhwysol

**Roedd tua 40% o'r sylwadau a wnaethpwyd yn yr holiaduron yn sôn am bersbectifau diogelwch – yn enwedig yng nghyd-destun cynwysoldeb** (gweler Tablau 3 a 4). Ategwyd hyn yn y trafodaethau yn ystod y cyfweliadau gyda chydlynwyr y cynllun:

> 'Fel sefydliad, pan fyddwn yn dweud lle diogel, rydym yn golygu'r arfer cynhwysol hwnnw'. 'Beth bynnag fo cefndir, amgylchiadau, oedran, nodweddion gwarchodedig pobl...gallant ddod i mewn a chael sgwrs.' (Cyfranogwr Int1)
>
> 'Rydym yn fan lle y mae pobl yn teimlo y gallant fynd heb i unrhyw un eu barnu...rydym yn lle diogel i grwpiau lleiafrifol hefyd.' (Cyfranogwr FG4)

Mae'n ymddangos bod y cydlynwyr yn allweddol er mwyn cyflawni'r ymdeimlad hwn o ddiogelwch a chynwysoldeb, gan fod ganddynt bolisi 'drws agored', sy'n cysylltu â thema lleoedd croesawgar hefyd:

> 'Rydym yn lleoliad cymunedol ar lawr gwlad, sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, felly dylai hynny gynnwys pawb.' (Cyfranogwr Int1)
>
> 'Pan fydd [pobl] yn dod am y tro cyntaf yn arbennig...gall fod yn anodd...Felly mae'n bwysig iawn eich bod yn ymgysylltu â nhw...rydym yn ceisio mynd i'r drws a dweud, dewch i mewn.' (Cyfranogwr Int4)
>
> 'Mae gennym rai bechgyn yn eu harddegau sy'n galw i mewn ar ôl ysgol yn aml. Ni fyddwn yn barnu a oes angen y diodydd hyn arnynt neu beidio... gallwn gael sgwrs â nhw ac mae hynny'n rhywbeth cadarnhaol yn fy marn i.' (Cyfranogwr FG4)

Roedd nifer wedi ymestyn eu horiau hefyd o ganlyniad i'r cynllun. Yn wir, **soniodd 30% o'r sylwadau yn yr holiaduron am wasanaethau estynedig a soniodd 32% am fynychwyr newydd (neu fwy ohonynt)** (Tabl 3). Dywedodd un cyfranogwr: 'roedd eglwysi ar agor bob dydd er mwyn helpu i gadw pobl yn gynnes'. Gwerthfawrogwyd dulliau gweithredu cynhwysol gan y rhai a oedd yn ymweld â'r lleoedd, a ddywedodd: 'mae'r lle hwn yn dda gan ei fod ar agor i bawb', 'mae ar gyfer unrhyw un', 'ceir gwahanol bobl' a 'phob oedran yma'. Mae hyn yn creu awyrgylch croesawgar a chadarnhaol, ac fel y dywedodd un cyfranogwr 'y peth gorau yw bod pawb yn cyd-dynnu' ac esboniodd un arall 'gallwch chi eistedd unrhyw le yma. Mae pawb yn garedig. Mae fel cymuned'.

Mae hyn yn cynnig cyfle i bobl agor i fyny i eraill mewn lle y mae pobl yn ymddiried ynddo. Fel y dywedodd un – 'mae'n fan lle y maent yn ymddiried yn y staff ac yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd'. Soniodd cyfranogwyr fod ffigurau cymunedol allweddol yn ymweld yn rheolaidd, cynghorwyr, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chydlynwyr ardal lleol. Mae hyn yn cynnig amgylchedd cyffyrddus iddynt fynegi materion lleol neu bersonol:

> 'Mae'n teimlo'n ddiogel iawn yma... mae'r PCSO yn ymweld yn rheolaidd. Mae hynny'n bwysig. Byddwn yn cael sgwrs am unrhyw bryderon.' (Cyfranogwr FG2)
>
> 'Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu...byddwn yn dod i'w hadnabod, yn gweld eu bod yn ddynol.' (Cyfranogwr Int5)
>
> 'Mae'r ffaith bod cynghorydd ar gael yn bwysig. Gallwn godi mater a byddant yn rhoi sylw iddo.' (Cyfranogwr FG2)

Mae Lleoedd Llesol Abertawe yn ddiogel, yn gynhwysol – ac yn fannau *hygyrch,* gan gynnwys ar gyfer y rhai sydd ag anableddau:

> 'Mae gennym offer synhwyraidd...dolen sain...cymhorthion darllen hefyd...rydym yn ceisio lleihau rhwystrau gymaint ag y bo modd.' (Cyfranogwr Int1)
>
> 'Rydym yn dymuno bod mwy o bobl yn gwybod bod llyfrgelloedd yn hygyrch ac yno iddynt.' (Cyfranogwr FG4)
>
> 'Rydw i'n agoraffobig ac mae ofn arnaf adael fy nhŷ. Ond rydw i'n hoffi dod yma. Byddaf yn mynd i Tesco ar yr un diwrnod ac rydw i'n gwybod y byddaf yn gallu dod yma os byddaf yn mynd i banig. Hwn yw'r unig amser pan fyddaf yn dod allan.' (Cyfranogwr FG5)
>
> 'Rydw i'n dioddef gyda fy iechyd meddwl ar hyn o bryd felly rydw i'n ceisio mynd allan a gwneud pethau. Rydw i wedi cael problemau gydag alcohol. A phan na fyddaf yn gwneud unrhyw beth, byddaf yn dechrau yfed.' (Cyfranogwr Int2)
>
> 'Mae menyw ddall sy'n dod yma ac mae pawb yn ymwybodol ac yn ei helpu.' (Cyfranogwr FG5)
>
> 'Mae gan fy merch anableddau dysgu ac mae lleoedd fel hyn yn helpu.' (Cyfranogwr FG2)

Fodd bynnag, mae rhai pethau nad ydynt yn hysbys i ni o ran pobl nad ydynt yn defnyddio'r lleoedd, lle y gallent fod wedi cael budd o wneud hynny. **Nododd 11 cynllun rai problemau gyda diffyg presenoldeb**, ac roedd rhai o'r farn bod hyn yn gysylltiedig â diffyg ymwybyddiaeth neu broblemau trafnidiaeth (Tabl 5). Nododd un cyfranogwr (cydlynydd):

> 'Am yr holl bobl sy'n dod atom...mae'n debygol bod 100 yn eu cartrefi nad ydynt yn medru symud...sut gallwn ni gyrraedd y bobl nad ydynt yma?' (Cyfranogwr Int4)

Esboniodd rhai cyfranogwyr am bwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus:

> 'Mae cyrraedd yma ar y bws yn bwysig iawn. Weithiau, ni fydd y bws yn cyrraedd. Ac mae hynny bob awr. Rydym wir yn dibynnu ar y bws.' (Cyfranogwr FG5)
>
> 'Rydym yn cynnig lifft os bydd rhywun yn stopio gyrru. Neu os na fyddant yn gallu gyrru...mae'n bwysig i ni na fydd pobl yn colli'r gallu i ddod yma gan eu bod yn hen.' (Cyfranogwr FG3)

Deallir bod o leiaf un cynllun wedi defnyddio'r cyllid i roi tocynnau bws.

Efallai fod y **stigma** o fanteisio ar y canolfannau clyd a'r cyfleusterau, er gwaethaf yr ymagwedd gynhwysol, yn rheswm arall dros ddiffyg ymgysylltu. Roedd **8 cydlynydd wedi sôn am hyn** (Tabl 5), gydag un yn dweud – '[Rydym] wedi dysgu bod angen help ar gryn dipyn o bobl. Maent yn gyndyn i gysylltu gan eu bod yn teimlo cywilydd oherwydd y sefyllfa y maent ynddi.'

**Thema 3 - 'Nid yw'n ymwneud â'r coffi': lleoedd croesawgar yn helpu i feithrin cysylltiadau cymdeithasol a lleihau arwahanrwydd**

Un o'r **canfyddiadau mwyaf arwyddocaol** yw effaith Lleoedd Llesol Abertawe ar **feithrin cysylltiadau cymdeithasol a lleihau arwahanrwydd trwy gynnig croeso cynnes**. Adlewyrchwyd hyn mewn dros **90% o'r sylwadau yn yr holiaduron am y gwahaniaeth canfyddedig i unigolion** (Tabl 4) yn ogystal â **chanlyniad anfwriadol y cynllun y cyfeiriwyd ato fwyaf** (Tabl 5). Fel yr awgrymodd dau gydlynydd:

> 'Y prif ganlyniad anfwriadol oedd mai cysylltiad a chymuned yr oedd pobl yn dyheu amdano, yn fwy na'r gwres ei hun!' (Sylw mewn holiadur)
>
> 'Nid oeddwn yn disgwyl i'r cyllid hwn ddwyn y gymuned ynghyd gymaint ag y mae wedi llwyddo i wneud.' (Sylw mewn holiadur)

Adlewyrchwyd hyn yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau hefyd:

> 'Credaf mai'r peth mwyaf gwerth chweil yw...mae pobl wedi dod i'r bore coffi fel dieithriaid ac maent wedi ffurfio cyfeillgarwch newydd.' (Cyfranogwr Int4)
>
> **'**Nid yw'n ymwneud â'r coffi. Mae'n ymwneud ag ymgysylltu â phobl yn y gymuned' (Cyfranogwr Int4)

Mynegwyd pwysigrwydd y lleoedd wrth leihau arwahanrwydd yn gyson gan gyfranogwyr: 'am gael cwmni', 'dod i adnabod pobl', 'osgoi'r arwahanrwydd' ac mae'r lleoedd wedi 'ehangu ein cylch' a 'gwneud cysylltiadau newydd'. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain, fel yr esboniwyd gan gyfranogwyr hŷn yng ngrwpiau ffocws un a dau:

> 'Nid oes teulu gan rai ohonom...neu nid ydynt yn byw yn lleol.'
>
> 'Rydym yn byw ar ein pennau ein hunain. Gall fod yn ynysig.'
>
> 'Byddwn yn ei chael hi'n anodd treulio'r diwrnod cyfan ar fy mhen fy hun. Nid dyn teledu ydwyf.'
>
> 'Hwn yw'r unig amser pan fyddaf yn gweld pobl.'

Mae'n cynnig cyfle i bobl leol feithrin cysylltiadau â'i gilydd, fel yr esboniwyd gan gyfranogwyr yng ngrŵp ffocws pump:

> 'Rydym oll yn byw yn lleol, ond nid oeddem yn adnabod ein gilydd o'r blaen.'
>
> 'Nid oeddem yn adnabod ein gilydd o'r blaen, er ein bod yn byw yn yr un ardal.'

Yn enwedig pan fydd eu hamgylchiadau wedi newid efallai:

> 'Bu farw fy ngwraig dair blynedd yn ôl. Hwn oedd y grŵp cyntaf i mi ddechrau ei fynychu ar ôl hynny.' (Cyfranogwr FG2)
>
> 'Euthum yn sâl ac ni allwn ddringo grisiau felly cefais le newydd. Nid oeddwn yn adnabod neb. Dywedodd menyw wrthyf am ddod yma ac rydw i wedi bod yn dod ers hynny.' (Cyfranogwr FG1)

Trwy fod gyda'i gilydd, gallant gynorthwyo ei gilydd neu gadw golwg ar ei gilydd:

> 'Mae pobl yn teimlo...bod ganddynt rywun y gallant droi ato. Mae ganddynt gymheiriaid sydd mewn sefyllfa debyg efallai.' (Cyfranogwr Int1)

> 'Rhowch le i bobl ac weithiau, bydd cysylltiadau yn tyfu mewn ffordd organig. Mae pobl yno yn darllen...byddant yn dal i fyny ag eraill.' (Cyfranogwr FG4)

> 'Os na fydd pobl yn dod...byddwn yn eu ffonio ac yn holi [sut ydynt].' (Cyfranogwr Int4)

At hynny, awgrymodd **27% o'r sylwadau a wnaethpwyd yn yr holiaduron** fod y **lleoedd wedi helpu i wella lles unigolion** trwy gyfrwng y cysylltiadau (Tabl 4). Er enghraifft, esboniodd un cyfranogwr fod ei mam, a oedd yn dawedog yn flaenorol, wedi dod yn 'fwy siaradus ers dod yma.' (Cyfranogwr Int5). Yn ogystal â lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, gall y lleoedd helpu gydag unigrwydd:

> 'Roedd fy merch yn pryderu gan fy mod yn unig, ffoniodd o gwmpas a chlywodd am y grŵp hwn. Anogodd fi i ddod ac rydw i wedi bod yn dod ers sawl mis.' (Cyfranogwr FG1)

Mae pobl Lleoedd Llesol Abertawe – y cydlynwyr – yn groesawgar. Maent yn ymboeni am eu cymuned. Mae hyn yn cysylltu â thema cynwysoldeb. Fel yr esboniodd cydlynwyr:

> 'Mae'r cymysgu yn bwysig. Rydym yn ceisio dod i adnabod enwau. Os bydd rhywun yn dod i mewn nad yw wedi bod o'r blaen, byddwn yn ei dywys i fwrdd, yn ei gyflwyno.' (Cyfranogwr Int7)

> 'Mae staff y llyfrgell wir yn rhan o'r ymdrech i chwalu'r arwahanrwydd cymdeithasol hwnnw. Rydym yn gwybod bod pobl yn dod i lyfrgelloedd ac efallai mai dyna'r unig dro byddant yn siarad â rhywun.' (Cyfranogwr FG4)

Mae'r preswylwyr sy'n mynychu lleoedd yn cydnabod hyn hefyd. Fel y dywedodd un – 'mae'r pâr sy'n rhedeg hwn yn wych. Maent yn rhoi eu hamser.' (Cyfranogwr FG1)

Mae'r cydlynwyr yn cynnwys asiantaethau eraill yn eu lleoedd hefyd. **Dywedodd 43 o 63 (68%) o Leoedd Llesol Abertawe eu bod wedi cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth fel rhan o'r cynllun**, a nododd 11% sylwadau a oedd yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth yn gwneud gwahaniaeth penodol i'r sefydliad ac i unigolion. Fel y rhannodd un cydlynydd cynllun mewn grŵp ffocws:

> 'Roeddem ar fap ac roedd hynny wedi helpu i gael mwy o ymwybyddiaeth o'r sefydliadau eraill a'r gwaith gwerthfawr yr oedden nhw yn ei wneud hefyd. Ac roeddem yn traws-hyrwyddo rhyw ychydig hefyd. Roedd wedi cryfhau partneriaethau mewn cymunedau.' (Cyfranogwr FG4)

Ceir y cwestiwn ynghylch cynaliadwyedd y lleoedd ac effaith stopio'r cynllun. **Roedd 20% o'r sylwadau i'r holiaduron am wersi a ddysgwyd yn trafod parhad y cynllun (a'r cyllid)** (Tabl 5). Roedd un cyfranogwr grŵp ffocws yn pryderu 'na fyddai'n gweld neb pe bai'r grŵp yn stopio.

### Thema 4 - 'Profiad llawer mwy': cymunedau yn defnyddio lleoedd anffurfiol i rannu gwybodaeth a dysgu

Mantais ehangach Lleoedd Llesol Abertawe a ddaeth i'r amlwg yw eu bod yn gweithredu fel lleoedd gwybodaeth a dysgu hefyd, wrth i gyfranogwyr rannu gwybodaeth leol, cymryd rhan mewn gweithgareddau a hyd yn oed datblygiad sgiliau. **Roedd dros 40% o'r sylwadau yn yr holiaduron am y gwahaniaeth a wnaethpwyd gan y cynllun yn ymwneud â thema ehangach dysgu a gwybodaeth** (Tablau 3 a 4). Mae cyfraniadau yng ngrwpiau ffocws un a dau yn cadarnhau hyn:

> 'Deuthum i gael cwmni a gwybodaeth...i gael gwybod yr hyn sy'n digwydd.'
>
> 'Mae argymhellion pobl yn bwysig.'
>
> 'Deuthum i wybod am y grŵp hwn trwy'r llyfrgell.'
>
> 'Mae'n fy helpu i gadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd – yn enwedig i deuluoedd.'
>
> 'Byddwch yn cael gwybod beth arall sy'n digwydd yn y gymuned.'
>
> 'Pe baem yn stopio mynd, byddem yn colli'r holl wybodaeth. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.'

Mae cael gwybod am yr hyn sy'n digwydd yn lleol gan bobl eraill yn hanfodol i breswylwyr nad ydynt wedi'u cysylltu mewn ffordd ddigidol (fel y cafodd ei gyfleu gan gyfranogwyr yng ngrwpiau ffocws un a dau):

> 'Os bydd eich llythrennedd cyfrifiadurol yn iawn, gallwch gael gwybodaeth am bethau.'
>
> 'Ceir tybiaeth bod pawb yn hyddysg mewn cyfrifiadura.'
>
> 'Rydym yn dymuno cael gwybodaeth wyneb yn wyneb a chael te a choffi.'

Gwelodd cyfranogwyr yng ngrŵp ffocws pump bwysigrwydd rhannu gwybodaeth gymunedol leol hefyd:

> 'Byddwn yn gallu trosglwyddo unrhyw wybodaeth sydd gennym. Mae hynny'n bwysig.'
>
> 'Rydw i'n gwirfoddoli hefyd ac rydw i'n gwybod am bethau eraill sy'n digwydd a gallaf ddweud wrth bobl.'

**Er nad oes gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir yn Lleoedd Llesol Abertawe, mae'n ymddangos bod gan yr holl leoedd yr ymwelwyd â nhw rywbeth i'w gynnig:**

> 'Mae'n ymwneud â chwmni, nosweithiau cymdeithasol, cawsom ginio Nadolig, mae'n fendigedig.' (Cyfranogwr FG2)
>
> 'Datblygom rywbeth a oedd yn de a choffi yn unig yn brofiad llawer mwy.' (Cyfranogwr FG4)

Mae'r gweithgareddau yn amrywiol, o 'drefnu blodau, celf, ioga, anerchiadau', i ddathlu achlysuron a chynnwys y gymuned ehangach. Soniodd un cyfranogwr 'cawsom blant ysgol yn canu ar Ddydd Gŵyl Dewi'. Fel yr esboniodd cyfranogwyr yng ngrŵp ffocws tri:

> 'Mae'r digwyddiadau y byddwn yn eu cynnal yn yr eglwys...yn bethau cymunedol iawn ac rydym wedi ehangu.'

> 'Cychwynnom ardd gymunedol sy'n dwyn elusen leol ac ysgol i mewn.'

Mae rhai o'r gweithgareddau yn targedu lles:

> 'Roedd gennym fentrau iechyd...gweithdai paentio crochenwaith a oedd yn cynnig ymwybyddiaeth ofalgar...gweithdai gwnïo.  Er nad oeddent yn dod o grant Lleoedd Llesol Abertawe yn uniongyrchol, ceisiom gydlynu ein holl weithgarwch.' (Cyfranogwr FG4)

> 'Mae pobl yn mynegi eu hunain mewn ffyrdd gwahanol.  Mae rhai pobl yn ei wneud trwy gerddoriaeth.' (Cyfranogwr Int1)

Mae rhai lleoedd yn cynnig datblygiad sgiliau a dysgu hyblyg i oedolion mewn amgylchedd cefnogol hefyd.  **Roedd 13% o'r sylwadau a wnaethpwyd yn yr holiaduron a oedd yn sôn am y gwahaniaeth a wnaethpwyd i sefydliadau** (10% mewn perthynas ag unigolion) **yn sôn am ddatblygiad gwirfoddoli a sgiliau** (Tablau 3 a 4).

> 'Roeddwn yn fyfyriwr prifysgol o'r blaen...nid oeddwn yn gallu astudio gyda'r boen. Mae'n rhywbeth y gallaf ddod i'w wneud pan fyddaf yn ddigon da.' (Cyfranogwr Int2)

> 'Mae pawb yn gymwynasgar iawn ac mae'n amgylchedd gwaith braf...gallwch ofyn am unrhyw beth.  Mae'n hawdd troi atynt.'  (Cyfranogwr Int3)

> 'Sgiliau'r staff er mwyn ceisio tynnu'r wal honno i lawr.'  (Cyfranogwr Int1)

> 'Mae llyfrgelloedd yn ymwneud â galluogi pobl i ddysgu...Ond nid yw wastad yn ymwneud â gwneud rhywbeth dros rywun, mae'n ymwneud â rhoi'r sgiliau iddynt.' (Cyfranogwr FG4)

Roedd cynorthwyo datblygiad sgiliau digidol (law yn llaw â gwella mynediad digidol, fel y cyfeiriwyd ato yn y thema gyntaf) yn bwysig i rai sefydliadau:

> 'Byddant yn cychwyn ar gwrs codio efallai, yna byddant yn symud ymlaen i gwrs datblygu gwefan, yna cwrs cerddoriaeth.  Maent yn hoffi'r hyn ydym ni.  Rydw i'n credu bod rhywfaint o hynny o ganlyniad i ganolfannau clyd hefyd.'  (Cyfranogwr Int1)

> 'Mae llythrennedd digidol wastad yn un o'n blaenoriaethau.'  (Cyfranogwr FG4)

## Trafodaeth a Chasgliadau

### Cyflwyniad

Roedd y gwaith ymchwil hwn yn ceisio deall sut y gallai datblygiad Lleoedd Llesol Abertawe greu buddion ehangach i'r gymuned, y tu hwnt i gynnig 'canolfannau clyd' cychwynnol. Mae'r astudiaeth hon ar raddfa fach wedi canfod themâu sy'n dangos, gyda'i gilydd, potensial y gweithgarwch hwn wrth helpu i feithrin cydnerthedd cymunedol a chysylltiadau

cymdeithasol. Mae hyn yn fwy arwyddocaol fyth o ystyried natur tymor byr y cyllid a sut y mae'r rhan fwyaf o'r lleoedd wedi dewis parhau i gadw eu drysau ar agor ar ôl y gaeaf. Mae Lleoedd Llesol Abertawe wedi bod yn bwysig er mwyn meithrin cysylltiadau, cyfeillgarwch, cyfalaf cymdeithasol a chydnerthedd yn ystod cyfnodau anodd, o'r cysylltiadau a ddatblygwyd. Mae pedair thema allweddol wedi deillio o'r gwaith ymchwil – persbectifau diogelwch, yn enwedig yng nghyd-destun cynwysoldeb; buddion cael lle cynnes yn ystod heriau costau byw; yr amgylchedd croesawgar sy'n hyrwyddo cysylltiadau cymunedol; a lleoedd dysgu sy'n datblygu cymunedau trwy rannu gwybodaeth a gweithgareddau. Mae'r drafodaeth hon yn dwyn ynghyd y themâu cydgysylltiedig hyn, gan fabwysiadu dull gweithredu mwy croestoriadol tuag at ddeall effaith dybiedig y cynllun, yn ogystal â'r heriau ehangach y mae pobl Lleoedd Llesol Abertawe yn eu hwynebu.

## Pwyntiau trafod

### *Lle diogel a chynnes i ddod trwy'r 'storm berffaith': Cynhwysiant cymdeithasol yn lleihau effaith tlodi*

Fel y disgrifiodd un cyfranogwr, roedd canolfannau clyd wedi dwyn ymdeimlad o 'heulwen' i bobl trwy gyfrwng lletygarwch a chynhesrwydd emosiynol. Mae'r argyfwng costau byw, mewn ffordd debyg i bandemig Covid-19, wedi dangos anghydraddoldebau bwyd, ond hefyd, capasiti cymunedau lleol i gydweithio ar lawr gwlad i ganfod ymatebion arloesol (Jones et al, 2022). Ar ôl dwy flynedd o 'gadw pellter cymdeithasol', mae cysyniad 'banciau gwres neu gynnes' neu 'ganolfannau clyd' wedi tyfu i gynorthwyo gweithgarwch adfer ar ôl y pandemig, yn ogystal ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac ynni (gweler er enghraifft, Cotton, 2021: Ellingham a Foster, 2022). Gan agor ar draws y DU yn 2022, mae canolfannau clyd wedi cael eu disgrifio fel mannau 'lle y gall pobl nad ydynt yn gallu fforddio gwresogi eu cartref yn ystod y dydd fynd i ryngweithio â phobl eraill yn y gymuned, gan gadw'n gynnes' (van Hoof, 2023). Gellir gweld y cysyniad mor bell yn ôl ag yn 2017 yn Northumberland, ac mae bellach yn sefydledig yno (Community Action Northumberland, 2023; Glass et al, 2021). Yn ogystal, mae 'ymgyrch croeso cynnes' yn awgrymu bod dros hanner miliwn o bobl wedi ymweld â'u rhwydwaith o dros 4,200 o leoedd cynnes ar draws y DU yn ystod y gaeaf y llynedd (Butler, 2023).

I bob pwrpas, mae Lleoedd Llesol Abertawe yn 'ganolfannau clyd' ac mae'r ymchwil hwn wedi canfod bod mwyafrif y bobl yn gweld manteision dod ynghyd i gadw'n gynnes. Roedd un cyfranogwr yn cydnabod y sialensiau sy'n dod ynghyd i greu'r storm berffaith – 'y pandemig... tlodi ynni a gwres, y rhyfel yn Wcráin, Brexit, mae nifer o'r pethau hyn wedi cael effaith' ar gymunedau. Mae'r sialensiau hyn yn cael effaith niweidiol ar grwpiau penodol o'r boblogaeth; er enghraifft, dywedir bod pobl hŷn yn 'mynd yn wyrdd o reidrwydd oherwydd eu sefyllfa ariannol' (van Hoof, 2023). Mae problemau penodol yn bodoli yng Nghymru, megis nifer anghymesur y cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael a niferoedd y bobl sy'n dioddef tlodi tanwydd (NEA, 2023). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisïau amrywiol i roi sylw i hyn, gan gynnwys Rhaglen Cartrefi Cynnes a'r strategaeth effeithlonrwydd ynni, yn unol â nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Corbyn a Baxter, 2021). Fodd bynnag, fel y nododd y Prif Weinidog, daeth yr ysgogiad ar gyfer canolfannau clyd gan gymunedau eu hunain; roedd datganiad ar y cyd gan CGGC ac arweinwyr cymdeithas dinesig yn annog y llywodraeth i ddarparu cymorth i fudiadau

gwirfoddol rheng flaen (CGGC, 2022). Disgrifiodd cyfranogwyr resymeg dod ynghyd i rannu lle wedi'i wresogi; fel y dywedodd un 'nid oedd angen i chi droi eich gwres ymlaen drwy'r dydd ac roeddech yn cael cwmni amser cinio.'

Mae'n ymddangos bod 'cwmni' yn allweddol. Yn ogystal â rhoi sylw i sialensiau tlodi, canfyddiad mwyaf arwyddocaol yr astudiaeth oedd effaith Lleoedd Llesol Abertawe ar feithrin cysylltiadau cymdeithasol a lleihau arwahanrwydd. Canfu arolwg a gynhaliwyd ar ran ymgyrch Croeso Cynnes yn ddiweddar mai effaith fwyaf canolfannau clyd oedd 'cynnig ymdeimlad o gymuned a mynd i'r afael ag unigrwydd mewn lle diogel a chroesawgar' (Butler, 2023)[7]. Ceir ymdeimlad o'r ymchwil, er gwaethaf rhai pryderon gan nifer fach o gydlynwyr, nad yw'r lleoedd yn creu'r un lefel o stigma sy'n gysylltiedig ag ymweld â banciau bwyd er enghraifft (gweler Purdam et al, 2016). Efallai fod yr angen ehangach a grëwyd gan y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi lleihau stigma. Er enghraifft, mae Glass et al (2021) wedi awgrymu bod y pandemig wedi galluogi pobl i geisio help 'yn haws' nag o'r blaen, gan fod 'natur yr argyfwng wedi rhyddhau derbynwyr o fai'. Yn ogystal, 'efallai mai effaith y pandemig fydd newid tybiaethau ynghylch stigma...gan beri i bobl fod yn fwy agored i gael cymorth o ryw fath yn y dyfodol' (Glass et al, 2021, t.17). Canfu Cynllun Abertawe fod cynwysoldeb a pheidio barnu yn agwedd allweddol ar gynnig ymdeimlad o ddiogelwch yn y lleoedd. Fodd bynnag, ceir pryderon o hyd bod pobl mewn angen nad ydynt yn defnyddio Lleoedd Llesol Abertawe. Ceir cyfle i archwilio ffyrdd i leoedd estyn allan (er enghraifft yn Northumberland, mae canolfannau clyd wedi cynnig cyflenwadau bwyd, Glass et al, 2021) neu i ystyried negeseuon er mwyn ategu'r cynwysoldeb a welir y tu mewn (ac mae un ddinas wedi darparu 'siarter lleoedd cynnes' sy'n cynnwys bod 'pawb mewn Lle Cynnes yn trin pobl ac yn cael eu trin gan bobl gydag urddas a pharch' (Cyngor Gateshead, 2023)).

### *Y rhaniad mawr: Ai digidol yw'r ateb er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol?*

Mae anghydraddoldeb digidol wedi cael ei ddisgrifio fel her i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â 'chynhwysiant digidol, gan gynnwys amddifadedd cymdeithasol, poblogaeth sy'n heneiddio a chysylltedd band eang gwael mewn ardaloedd gwledig anghysbell' (Gann, 2019, t146). At hynny, gwaethygodd yr anghydraddoldeb a'r 'rhaniad digidol' hwn yn ystod pandemig Covid-19, lle y gwelwyd bod defnydd o dechnoleg yn hanfodol (Llywodraeth Cymru, 2023). Er y ceir ymdrechion trwy 'Strategaeth Ddigidol i Gymru' Llywodraeth Cymru i wella cysylltedd digidol, cydnabuwyd bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith ar gynlluniau gwella (Llywodraeth Cymru, 2023). Dangosodd canfyddiadau'r astudiaeth hon fanteision cysylltu pobl er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, ac fel estyniad i hyn, gwella lles. Er y gwelwyd consensws am y ffaith bod Lleoedd Llesol Abertawe wedi gwella cynhwysiant cymdeithasol, pan ystyrir cynhwysiant digidol, mynegwyd amrediad o safbwyntiau, sy'n awgrymu bod angen mabwysiadu dull gweithredu mwy croestoriadol er mwyn deall sut y mae cynhwysiant digidol yn cynorthwyo cysylltiadau cymdeithasol.

---

[7] Nid yw'r adroddiad sy'n cynnwys manylion pellach am yr arolwg wedi'i gyhoeddi eto, ond gellir gweld rhagor o fanylion yn yr erthygl hon yn The Guardian: https://www.warmwelcome.uk/blog/the-guardian-more-than-500-000-people-in-uk-visited-warm-rooms-during-the-winter

Er enghraifft, ar gyfer dau o'r grwpiau ffocws y mae demograffeg ehangach o ran oedran yn ymweld â'u lleoedd, mae cynorthwyo cysylltiadau digidol yn bwysig. Disgrifiodd cyfranogwyr ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo cynhwysiant digidol trwy gynnig cardiau sim am ddim, pwyntiau gwefru, defnyddio WIFi a chyfrifiaduron, a dosbarthiadau sgiliau digidol. Disgrifiwyd hyn fel blaenoriaeth i gydlynwyr lleoedd. Roedd ymgysylltu â 'banc data cenedlaethol' Sefydliad Good Things yn un ffordd o leihau'r rhaniad digidol[8]. At hynny, mae'r angen i ymateb i anghydraddoldeb digidol yn debygol o barhau i fod yn fater, er enghraifft, awgrymodd USwitch y disgwylir i brisiau band eang godi 15% eleni[9]. Roedd arolwg ymhlith defnyddwyr yn awgrymu bod pobl yn newid eu gwariant ar hanfodion megis bwyd a dillad er mwyn fforddio gwasanaethau telathrebu (Which, 2022). O ystyried dibyniaeth cymdeithas fodern ar y rhyngrwyd, mae hyd yn oed wedi cael ei ddadlau y dylai mynediad iddo fod yn hawl ddynol (Nathaniel-Ayodele, 2023).

Mewn cyferbyniad – yn y grwpiau ffocws gyda nifer o bobl hŷn, nid oedd yr elfen ddigidol yn ffactor pwysig ac ar ben hynny, roedd ganddynt fwy o ddiddordeb mewn cysylltiadau wyneb yn wyneb a ffynonellau anffurfiol rhannu gwybodaeth. Er mai nod y 'Strategaeth Ddigidol i Gymru' yw hyrwyddo cynhwysiant digidol er mwyn sicrhau 'na chaiff neb un ei adael ar ôl', mae'n derbyn bod pobl 'na allant, neu sy'n penderfynu peidio cymryd rhan yn ddigidol' (Llywodraeth Cymru, 2021, t.20). Mae'r gwaith gwerthuso ffurfiol ynghylch effaith technoleg er mwyn rhoi sylw i faterion megis unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol i bobl hŷn yn gyfyngedig (Barnett et al, 2022). Yn ystod covid-19, canfu un astudiaeth rai manteision ond nid oedd hyn 'yn disodli neu'n atgynhyrchu gwerth cyswllt wyneb yn wyneb' (Barnett et al, 2022, t.4). Bu astudiaeth yng ngogledd Cymru hefyd yn ystyried cynnydd mewn cyfraddau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol law yn llaw â phoblogaeth sy'n heneiddio; roedd y canfyddiadau yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu ymyriadau unigoledig sy'n helpu i integreiddio pobl yn eu cymunedau. (Roberts a Windle, 2019). Yn wir, mae'r strategaeth ddigidol i Gymru yn derbyn y dylai 'dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr' helpu i archwilio ffyrdd amgen o fanteisio ar wasanaethau (Llywodraeth Cymru, 2021, t.20). Mae gweithgarwch Cydlynu Ardal Lleol a ddarparir gan awdurdod lleol yn un dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a cheir sylfaen dystiolaeth gref yn Abertawe (Roderick et al, 2016). Amlygodd rhai cyfranogwyr sut yr oedd cydlynwyr ardal lleol wedi eu cyflwyno i Le Llesol Abertawe neu ymweld â'r lle. Yn wir, mae mynd i'r afael ag arwahanrwydd wedi bod ac mae'n parhau i fod yn un o'r ffactorau allweddol i gydlynwyr (Roderick et al, 2016: Roderick, *i ddod*[10]). Mae Cydlynu Ardal Lleol wedi cael ei weld fel rhywbeth sy'n helpu unigolion a theuluoedd, ond ceir llai o dystiolaeth am yr effaith gymunedol (Lunt et al, 2020) a chysylltiadau â grwpiau megis Lleoedd Llesol Abertawe (maes i'w archwilio ymhellach efallai).

Yn olaf, er mwyn ymateb i anghenion croestoriadol ynghylch cynhwysiant cymdeithasol a buddion cymunedol, gallwn edrych i'r llyfrgelloedd hefyd. Roedd llyfrgelloedd a gwasanaethau gwybodaeth ar draws y DU ymhlith y cyntaf i hyrwyddo'r defnydd o 'ganolfannau clyd' (CILIP, 2022). Roedd cyfranogwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y cynnig estynedig mewn llyfrgelloedd fel rhan o Leoedd Llesol Abertawe. Mae'n ymddangos bod

---

[8] https://www.goodthingsfoundation.org/databank/

[9] Erthygl dyddiedig 22/06/23 https://www.uswitch.com/broadband/guides/mid-contract-price-rises/

[10] Disgwylir adroddiad ymchwil wedi'i ddiweddaru am Gydlynu Ardal Lleol Abertawe gan Siân Roderick, Prifysgol Abertawe.

llyfrgelloedd yn croesi'r rhaniad digidol o ran darparu cysylltedd digidol a chysylltedd heb fod yn ddigidol i ddemograffeg eang.  Amlygodd adroddiad gan y Senedd yn ddiweddar werth cymdeithasol llyfrgelloedd (a gwasanaethau hamdden), gan gynnwys eu rôl wrth roi sylw i gynhwysiant cymdeithasol a digidol (Comisiwn y Senedd 2023b).  Yn ei chyfraniad i Bwyllgor y Senedd, amlygodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bwysigrwydd llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol hefyd.[11]

## Sylwadau i gloi

Roedd y cynnydd mewn 'canolfannau clyd' yn rhywbeth a ysgogwyd gan y gymuned ond a gefnogwyd gan gyllid Llywodraeth Cymru a gweithgarwch cydlynu gan yr awdurdod lleol yn Abertawe.  Fel yr oedd un cyfranogwr yn cydnabod, ni fyddai cyllid o'r fath yn cael ei 'ystyried yn flaenoriaeth' fel arfer o reidrwydd.  Fodd bynnag, mae'r gwaith ymchwil hwn wedi dangos manteision cymunedol ehangach gweithredu cynllun Lleoedd Llesol Abertawe, sydd wedi parhau yn ystod misoedd yr haf.  Yn anffodus, bu'n anodd nodi cyfanswm y bobl sydd wedi cael budd o'r cynllun yn Abertawe[12], ond awgrymwyd bod y ffigwr yn y DU dros hanner miliwn o bobl neu hyd yn oed yn fwy (Butler, 2023).  Yn ystod digwyddiad rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ddiweddar i drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, amlygodd cyfranogwyr yr angen i 'ganolbwyntio ar ddatrysiadau a gweithgarwch atal cymunedol' 'er mwyn mynd i'r afael â gwraidd problem tlodi ac anghydraddoldeb';  ac er mwyn cyflawni hyn, nodwyd 'pwysigrwydd mentrau cyffredinol' megis 'canolfannau clyd' (Comisiwn y Senedd, 2023a, t.11).  Yn wir, roedd y digwyddiad cymunedol a gynhaliwyd i drafod canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn dynodi bod y cynllun yn un hynod gadarnhaol ac y dylai barhau, fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy o waith ymchwil dros y tymor hir.  Mae hyn yn cynnwys deall pam nad yw rhai pobl yn ymweld â Lleoedd Llesol Abertawe a mwy o ddealltwriaeth ar sail lle o'r ffordd y mae'r lleoedd yn gweithio yn eu hardaloedd lleol a'r cyfleoedd i ddatblygu Lleoedd Llesol Abertawe ymhellach.

## Argymhellion

Mae'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y digwyddiad cymunedol wedi helpu i lunio'r argymhellion canlynol:

- Rhannu canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys trwy gyfrwng yr animeiddiad byr sy'n cyd-fynd ag ef, â'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn hyrwyddo gwaith Lleoedd Llesol Abertawe.
- Cynnal gwaith ymchwil pellach i feithrin dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynychu Lleoedd Llesol Abertawe, gan gynnwys archwilio strategaethau priodol i gyrraedd yr unigolion hyn.
- Archwilio sut y mae Lleoedd Llesol Abertawe yn gweithio (neu sut y gallent weithio) fel dull gweithredu sy'n seiliedig ar le gyda gwasanaethau cyhoeddus (megis ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol) ac asiantaethau eraill o'r sector gwirfoddol.

[11] https://olderpeople.wales/local-authority-library-and-leisure-services/
[12] Nid oedd yn ofyniad bod lleoedd yn olrhain mynychwyr ac roedd Cyngor Abertawe yn gyndyn i nodi ffigwr manwl o ran niferoedd cyfranogi

- Dealltwriaeth ynghylch sut y gall Lleoedd Llesol Abertawe gynnig cymorth a chyngor priodol ar lefel uwch (megis trwy SNPTCAN[13] a Chydlynu Ardal Lleol).

## Cyfeiriadau


Barnett, J., Gillison, F., Ellis, D., Grey, E., Baber, F., and Corbett, E. (2022). Older adults and the pandemic: Tackling loneliness through technology. Welsh Centre for Public Policy. https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2023/06/Older-adults-and-the-pandemic-Tackling-loneliness-through-technology.pdf

Butler, P. (26 April 2023). More than 500,000 people in UK visited ‘warm rooms’ during the winter. The Guardian. https://www.theguardian.com/society/2023/apr/26/warm-rooms-winter-loneliness

Braun, V. & Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. Qualitative Research in Psychology, 3 (2), 77-101. doi: 10.1191/1478088706qp063oa

CILIP (2022). A warm welcome: setting up a warm space in your community. CILIP: the library and information association. https://cdn.ymaws.com/cilip.site-ym.com/resource/resmgr/cilip/information_professional_and_news/press_releases/2022_10/a_warm_welcome_2022.pdf

Cotton, M. (2021). A Climate For Change: How the North of England can be at the forefront of the green revolution. Northern Gas Networks, Teesside University and YouGov.

Community Action Northumberland. (2023). Warm Hubs. http://www.ca-north.org.uk/supporting-individuals/warm-hubs

Corbyn & Baxter (2021). Warm Homes for Wales. Senedd Research. https://research.senedd.wales/research-articles/warm-homes-for-wales/


[13] Rhwydwaith Cygnor Abertawe Castell-nedd a Phort Talbot https://snptcan.wales/

Ellingham, M., & Foster, P. (2022). Warm banks help thousands survive cold snap as UK fuel poverty soars. FT.Com, https://www.proquest.com/trade-journals/warm-banks-help-thousands-survive-cold-snap-as-uk/docview/2765285673/se-2

Gann, B. (2019). Digital Inclusion and Health in Wales, Journal of Consumer Health on the Internet, 23:2, 146-160, DOI: 10.1080/15398285.2019.1608499

Gateshead Council (2023). Warm spaces. https://www.gateshead.gov.uk/article/21164/Warm-Spaces#Warm%20Spaces%20Gateshead%20Charter

Glass, J., Shucksmith, M. D., Chapman, P., & Atterton, J. (2021). Covid-19, lockdowns and financial hardship in rural areas: Insights from the Rural Lives project. https://www.rurallives.co.uk/rural-lives-final-report.html

Green, L., Ashton, K., Bellis, M., Clements, T., and Douglas, M. (2022). Predicted and observed impacts of COVID-19 lockdowns: two Health Impact Assessments in Scotland and Wales, Health Promotion International, Volume 37, Issue 6. https://doi.org/10.1093/heapro/daac134

Handscomb, K., & Marshall, J. (15 August 2022). Cutting back to keep warm: Why low-income households will have to cut back on spending by three times as much as high-income households this winter. The Resolution Foundation. https://www.resolutionfoundation.org/publications/cutting-back-to-keep-warm/

Jones, R., Lane, E., & Prosser, L. (2022). Coronavirus' exposure of food, place and community resilience: a Welsh local authority perspective. Journal of Place Management and Development, 15(4), 476-492. https://doi.org/10.1108/JPMD-02-2021-0014

Lunt, N., Bainbridge, L., & Rippon, S. (2021). Strengths, assets and place – The emergence of Local Area Coordination initiatives in England and Wales. Journal of Social Work, 21(5), 1041–1064. https://doi.org/10.1177/1468017320918174

Nathaniel-Ayodele, S. (2023). Internet access: essential utility or human right? The good things foundation. https://www.goodthingsfoundation.org/insights/internet-access-human-right-essential-utility-shade-nathaniel-ayodele/

National Energy Action (NEA) (2023). UK Fuel Poverty Monitor 2021-2022. https://www.nea.org.uk/publications/uk-fuel-poverty-monitor-2021-22/

Purdam, K., Garratt, E.A., & Esmail, A. (2016). Hungry? Food Insecurity, Social Stigma and Embarrassment in the UK. Sociology, 50:6, 1072-1088

Roberts J, Windle G. (2020). Evaluation of an intervention targeting loneliness and isolation for older people in North Wales. Perspectives in Public Health.140(3):153-161. doi:10.1177/1757913919868752

Senedd Commission (2023a). Finance Committee Summary Engagement Report -Welsh Government Draft Budget 2024-25. https://business.senedd.wales/documents/s138209/Welsh%20Government%20Draft%20Budget%202024-25%20Finance%20Committee%20Summary%20Engagement%20Report%20-%20July%202023.pdf#page=11

Senedd Commission (2023b). Welsh Parliament Local Government and Housing Committee - Local Authority Leisure and Library Services. https://senedd.wales/media/3fdmwwiv/cr-ld15967-e.pdf

Thomas, H. (19 June 2023). Cost of living: Welsh winter warm hubs stay open in summer. BBC News. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-65929380

WCVA (2022). WCVA and others join together on the cost-of-living crisis. https://wcva.cymru/wcva-and-others-join-together-on-the-cost-of-living-crisis/

Welsh Government (2021). Digital strategy for Wales: How we will use digital, data and technology to improve the lives of people in Wales. https://www.gov.wales/digital-strategy-wales-html

Welsh Government (2022). Written Statement: Funding for Warm Hubs (12 October 2022). Gov.Wales. https://www.gov.wales/written-statement-funding-warm-hubs

Welsh Government (2023). Cost of living crisis and the Digital strategy for Wales (Report). https://www.gov.wales/cost-living-crisis-and-digital-strategy-wales-html

van Hoof, J. (2023). Older people going green out of financial necessity: Environmental sustainability and age-friendly cities. Indoor and Built Environment. doi:10.1177/1420326X231156672


Which (4 August 2022) Millions struggling to afford essential telecoms, says Which? Which Press Office. https://press.which.co.uk/whichpressreleases/millions-struggling-to-afford-essential-telecoms-says-which/

Williams, S., & McKee, M. (27 July 2023) How austerity made the UK more vulnerable to COVID. The Conversation UK. https://theconversation.com/how-austerity-made-the-uk-more-vulnerable-to-covid-208240


Wincup, E. (2017). Criminological Research: Understanding Qualitative Methods: Vol. 2nd edition. SAGE Publications.

Atodiad


Tabl 3




Tabl 4


'Effaith ganfyddedig Lleodd Llesol Abertawe ar gyfranogwyr'
Nifer y sylwadau
60
50
40
30
20
10
0
Welcoming (Connects)
Warm space (Cost of Living)
Learning (Info & activities)
Safe space (Inclusive)
Welcoming (Well-being)
Enhanced service offer
Partnership offer
Skills & volunteering
New or repeating visits
Ffactorau a gafodd effaith

Tabl 5


'Barnau am ddysgu ehangach o Leoedd Llesol Abertawe'
Nifer y sylwadau
30
25
20
15
10
5
0
Increased social connections
Service adaptations (doing things differently)
Lack of attendees (inc. awareness &...
Financial issues
Continuation of offer
Positive feedback and impact
Stigma of attending
Importance of activities
Service growth / more attendees
Increased volunteering/ skills
Canlyniadau anfwriadol/gwersi a ddysgwyd